

Hysbysiad o Wneud
GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR SIR Y FFLINT
(MAES PARCIO STRYD NEWYDD)
(LLEOEDD PARCIO ODDI AR Y STRYD – YR WYDDGRUG)
2022

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud Gorchymyn arbrofol ar 1 Tachwedd 2022 dan Adran 9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a phob pŵer arall sy'n galluogi, a'i effaith fydd:-

1. Atal Cynllun 6 - Maes Parcio Stryd Newydd, yng Ngorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio oddi ar y Stryd – yr Wyddgrug) (Gorfodi Sifil) 2018 a'i ddisodli â 6A
2. Cyflwyno ardal ddynodedig i barcio coetsis ym Maes Parcio Stryd Newydd, yr Wyddgrug, fel sydd i'w weld ar Gynllun 6B sydd o fewn y Gorchymyn Arbrofol.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol 'Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Lleoedd Parcio oddi ar y Stryd) (Gorfodi Sifil) 2018' yn parhau mewn grym.

Mae copi o'r Gorchymyn ynghyd â chynllun yn dangos y ffyrdd yr effeithir arnynt gan y Gorchymyn yn Gorchymyn a ddaw i rym ar 4 Tachwedd 2022, a datganiad o resymau'r Cyngor dros wneud y Gorchymyn i'w gweld yn Sir y Fflint yn Cysylltu, Llyfrgell yr Wyddgrug, Ffordd yr Iarll, yr Wyddgrug, CH7 1AP yn ystod oriau swyddfa neu gellir eu gweld ar ein gwefan www.sirfflint.gov.uk > Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchymynion Rheoliadau Traffig neu gellir gofyn am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352701234.

Bydd y Cyngor yn ystyried, maes o law, a ddylai darpariaethau'r Gorchymyn barhau mewn grym am gyfnod amhenodol. O fewn cyfnod o 6 mis wedi i'r Gorchymyn ddod i rym, neu os yw'r Gorchymyn yn cael ei addasu neu ei amrywio wedi hynny, ers i'r addasiad neu'r amrywiad hwnnw ddod i rym (pa un bynnag yw'r hwyraf), gall unrhyw un wrthwynebu gwneud y Gorchymyn at bwrpas parhad amhenodol o'r fath.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn, a'r sail ar gyfer gwrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod o fewn chwe mis i'r dyddiad y bydd y Gorchymyn hwn wedi dod i rym, neu'r dyddiad y bydd unrhyw amrywiad neu addasiad neu'r amrywiad neu'r addasiad diweddaraf wedi dod i rym gan nodi cyfeirnod SS/TRO/JB/OFS/EO/2022.

Gall unrhyw un sy'n dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn Arbrofol (a wnaed ar 1 Tachwedd 2022) neu unrhyw ddarpariaeth ynddo ar sail nad ydynt o fewn y grymoedd y cyflwynwyd gan y ddeddfwriaeth berthnasol, neu ar sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofynion deddfwriaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn, wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos o 1 Tachwedd 2022 i'r diben hwn.

Orchymyn Arbrofol Cyngor Sir y Fflint (Maes Parcio Stryd Newydd, yr Wyddgrug) (Gwahardd Gyrru) (Ar wahân i Fysiau) 2022, 18 Hydref 2022. Diwygir y Gorchymyn Gwreiddiol drwy hyn gan:-

- O fewn Cymal 2 – bydd Erthygl 2 nawr yn dweud Erthygl 3
- O fewn Cymal 3 – bydd Erthygl 1 nawr yn dweud Erthygl 2
- O fewn Cymal 7 – bydd Erthygl 1 nawr yn dweud Erthygl 6

Dyddiedig y dydd Gwener 4 Tachwedd 2022

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'KWilby'.

Katie Wilby, Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint. CH7 6NR.